# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DDYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd B. Jones- Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

N. George (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Adfywio, Trafnidiaeth a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth) ac E. Stenner (Cyllid, Perfformiad a Chynllunio).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Gwasanaethau Dysgu, Addysg a Chynhwysiant), A. West (Ysgolion yr 21ain Ganrif, Swyddog Derbyniadau a Gwaharddiadau), E. Sharma (Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd), K. Peters (Rheoli Polisi Corfforaethol), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), T. McMahon (Rheolwr Adfywio Cymunedol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg) S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog S151 Dros Dro), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

J. Fabes (Swyddog Arweiniol - Ôl 16 oed), L. Jarvis (Pennaeth - Ysgol Gyfun Martin Sant) ac C. Parry (Pennaeth - Ysgol Lewis Pengam).

Y Cynghorydd K. Etheridge (Arweinydd y Grŵp Annibynnol).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Marsden a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd C. Cuss fuddiant personol yn <u>Eitem 8 ar yr Agenda – Trefniadau</u>

Cydweithredu Ôl-16 oed fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Idris Davies.

## 3. CABINET – 12 CHWEFROR 2020

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Cafodd y Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn cynnwys manylion am yr adroddiadau a drefnwyd rhwng 12 Ionawr 2020 a 7 Hydref 2020. Cafodd Aelodau eu hatgoffa fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio a bod newidiadau'n bosibl.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newidiadau a nodwyd uchod, nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. FFRAMWAITH PERFFORMIAD NEWYDD 2020

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno i'r Cabinet Fframwaith Perfformiad newydd ar gyfer y Cyngor sy'n ateb y gofynion ac sy'n ategu datblygiadau modelau gweithredu'r dyfodol.

Nodwyd fod Fframwaith Perfformiad y Cyngor wedi bod yn ei ffurf bresennol ers nifer o flynyddoedd a'i fod wedi bod yn gonglfaen i drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Wrth i'r Cyngor gychwyn ar ei Raglen Drawsnewid uchelgeisiol, mae Tîm Caerffili, ochr yn ochr â dyfodiad deddfwriaeth newydd fel Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019, yn golygu ei bod yn amserol ac addas i ailddatblygu a gwella'r Fframwaith.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno elfennau allweddol y Fframwaith Perfformiad newydd, y berthynas rhwng yr elfennau a'r trefniadau adrodd a sefydlwyd i ymwreiddio'r fframwaith mewn defnydd gweithredol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac wedyn cafwyd trafodaeth.

Nodwyd y bydd y Fframwaith Perfformiad newydd yn arwain at fframwaith mwy modern a hyblyg, a fydd yn gallu addasu i ofynion yr holl wasanaethau, er enghraifft data perfformiad tymhorol, bygythiadau a risgiau fel Cynnal a Chadw dros y Gaeaf a'r stoc halen.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar Raglen y Cynllun Gweithredu yn Atodiad B o'r adroddiad, a'r Camau a restrwyd fel "Heb eu Dechrau". Dywedodd swyddogion er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd yn gysylltiedig â'r Agenda Drawsnewid, o ganlyniad i gyflogi a chynefino'r Rheolwyr Trawsnewid a Ffurfioli'r Fethodoleg Perfformiad, roedd gwaith yn cael ei wneud ar rai camau ond nid oeddent wedi'u cwblhau eto.

Cafwyd trafodaethau ar y Dangosfyrddau, a nodwyd fod adroddiadau arnynt yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT), sy'n gallu canfod unrhyw risgiau neu heriau, ac sy'n gallu cael eu datrys yn rhwydd i liniaru unrhyw broblemau eraill. Bydd y Fframwaith Perfformiad newydd yn cyrraedd pob rhan o'r Awdurdod, o adrodd i CMT, Cabinet a Chraffu, i drawsnewid y Broses Perfformiad Staff a bydd yn golygu system fonitro eglur a hwylus bob amser.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd fod yr adroddiad yn cael ei ohirio. Ar ôl codi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD yn unol â'r rhesymau yn adroddiad y Swyddogion fod Fframwaith Perfformiad Newydd Caerffili 2020 yn cael ei gymeradwyo.

**6. PORTH I GYFLOGAETH – ACADEMI SGILIAU A PHRENTISIAETHAU CAERFFILI**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i dreialu model i lunio rhaglen gynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r fframwaith sy'n sicrhau darpariaeth sgiliau, hyfforddiant a phrentisiaeth gyfannol sy'n cynnwys profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau ac sy'n rhoi profiad gwaith a chyfleoedd blasu i ddisgyblion ysgol yn ogystal â chymorth, cyngor ac arweiniad i ysgolion i helpu'r rhai nad ydynt yn dymuno dilyn llwybr cyrhaeddiad traddodiadol i gael darpariaeth amgen drwy brentisiaethau.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am neilltuo cyfleoedd am swyddi cynaliadwy drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel cyflogwr, gan gefnogi Amcan 2 Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023.

Nodwyd fod prentisiaethau'n cynnig buddiannau sylweddol i gymdeithas a'r economi. Maent yn rhoi cyfle i bobl i ddatblygu cymwyseddau sy'n gysylltiedig â gwaith, sgiliau technegol, sgiliau llythrennedd a rhifedd a hunan barch. Mae ganddynt hefyd rôl bwysig o ran mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae sgiliau a ddatblygir drwy Brentisiaethau yn cyfrannu at weithgarwch economaidd gwerth uwch. Maent hefyd yn cyfrannu at dwf a symudedd cymdeithasol.

Byddai cynllun hyfforddi, sgiliau a phrentisiaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymateb i gynlluniau datblygu gweithlu'r Cyngor wrth iddynt ddatblygu, a byddai synergedd hefyd â Chytundeb Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i nod o greu ystod o brentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth sy'n diwallu anghenion diwydiant, busnes a masnach yn ne ddwyrain Cymru. Bydd yn sicrhau bod sectorau blaenoriaeth yn cael eu targedu i fanteisio ar gyfleoedd o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn hybu'r sectorau twf yn y rhanbarth, gan greu cyfleoedd ymhlith ystod o broffiliau demograffig ac economaidd gymdeithasol.

Byddai'r Academi yn cynnig rhaglen fentora, cymorth cyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaeth gyfannol i bobl o bob oed, i ddiwallu gofynion sgiliau'r Cyngor yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddai'n cael effaith sylweddol drwy leihau lefelau anweithgarwch a diweithdra ymhlith preswylwyr ledled y fwrdeistref sirol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi y byddai'r Porth yn cynnig un llwybr atgyfeirio ac y byddai hynny'n helpu i gefnogi'r agenda.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac yna cafwyd trafodaeth.

Cafwyd trafodaethau ar ymrwymiad ysgolion ac ystod oedrannau'r rhaglen, a nodwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi agor, ac mae'n ymddangos bod ysgolion yn gefnogol, gyda llawer wedi mynegi siom nad yw'r cyfleoedd hyn wedi bod ar gael hyd yma.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y rhaglen, yn benodol cyfleoedd cyflogaeth yn lleol. Eglurodd Swyddogion fod Dadansoddiad Sectoraidd wedi'i gynnal sy'n nodi'r cryfderau yn y fwrdeistref a ble mae'r cyfleoedd a'r ardaloedd twf. Er enghraifft, nodwyd fod gan ogledd y Fwrdeistref nifer o fusnesau Gwyddorau Bywyd, sy'n awyddus i ehangu, lle mae galw am sgiliau, a'r gobaith yw y gellir datblygu'r gweithlu lleol i ateb y galw hwn. Hefyd, mae digwyddiadau sector benodol wedi cael eu trefnu gyda gwahoddiad i gyflogwyr lleol, gyda'r nod o deilwra hyfforddiant gyda cholegau a chyflogwr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen mewn rhaglenni Prentisiaeth. Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi llaw cafwyd cytundeb unfrydol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Ar ôl codi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog:

i) Cytuno i dreialu Academi Sgiliau a Phrentisiaeth Caerffili - Porth i Gyflogaeth o Ebrill 2020, am flwyddyn yn y lle cyntaf.

ii) Bod y gost ychwanegol o £127,000 i ariannu'r peilot yn dod o gronfa wrth gefn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol.

## 7. FFRAMWAITH YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU 2020-2025

Roedd yr adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu drafft sy'n amlinellu dull i wella ymgynghori ac ymgysylltu ledled Cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili gan ddangos pwysigrwydd parhau i ymgynghori ac ymgysylltu'n effeithiol, a'r cysylltiad strategol clir â'r broses benderfynu.

Mae #TîmCaerffili – Strategaeth Trawsnewid Yn Well Gyda'n Gilydd a gymeradwywyd gan y Cabinet fis Mehefin 2019 yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu a gweithio â'n cymunedau fel un o'i phrif themâu.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion, a diogelu'r gwasanaethau hyn at y dyfodol, gan gydnabod bod yr angen i ymgysylltu'n effeithiol yn ganolog i'r broses benderfynu – cynnwys preswylwyr yn nyluniad gwasanaethau lleol a'r pethau hynny sy'n effeithio arnynt.

Hefyd, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gryfhau'r berthynas rhyngddo a'r gymuned - preswylwyr, busnesau, a grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili sector gwirfoddol a chymunedol bywiog a brwd, sy'n cynnig cyfle pwysig i gynyddu cyfranogiad y gymuned.

Drwy gydol siwrnai #TîmCaerffili – Strategaeth Trawsnewid Yn Well Gyda'n Gilydd, rhaid i'r cyngor hefyd barhau i fod yn agored a gonest gyda'n cymunedau er mwyn rheoli disgwyliadau; bydd angen i'r cymunedau eu hunain chwarae rhan allweddol i helpu i ffurfio'r broses drawsnewid.

Mae Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 drafft yn dangos sut y byddwn yn gwella ymgynghori ac ymgysylltu ledled cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n amlygu egwyddorion a safonau o ran sut y bydd y cyngor yn ymgysylltu – i gael disgwyliadau clir, a rennir a deialog ddwyffordd barhaus i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a gyda chytundeb y Cadeirydd, croesawyd y Cynghorydd K. Etheridge, Arweinydd y Grŵp Annibynnol i'r Cyfarfod i siarad ar yr eitem hon.

Croesawodd y Cynghorydd Etheridge y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, ond gofynnodd i'r Cabinet ystyried ffurfio Pwyllgor Craffu Cymuned a Phartneriaethau, a allai oruchwylio ymarferion Ymgynghori a chael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli rhwng yr Awdurdod a'r Cyhoedd, gan roi hwb pellach i agenda Tîm Caerffili. Hefyd, awgrymwyd y byddai Cynghorwyr yn fwy gweladwy a hygyrch i'r Cyhoedd. Wrth drafod y Panel Safbwyntiau, awgrymwyd y gallai bob un o'i Aelodau gwblhau pro fforma, sy'n nodi eu sgiliau a'u harbenigeddau, er mwyn cynnal mwy o grwpiau ffocws ac ymgysylltu mewn ffordd fwy adeiladol.

Cafwyd cais hefyd fod adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn y dyfodol yn cynnwys y Gwrthbleidiau, Undebau Llafur a'r Sector Gwirfoddol fel Ymgyngoreion er mwyn bod yn fwy cynhwysol.

Diolchodd y Cabinet i'r Cynghorydd Etheridge am ei Adborth a'i gwestiwn, a nodwyd fod nifer o'r dulliau ymgynghori a awgrymwyd ganddo wedi eu mabwysiadu'n barod ; fodd bynnag, cytunwyd y gellid gwneud mwy i annog mwy o ymgysylltu gan y cyhoedd. Ychwanegodd Swyddogion fod pob adroddiad a gyhoeddir ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor ac ar y Rhyngrwyd, a'u bod felly ar gael i bawb. Nodwyd fod Arweinyddion y Gwrthbleidiau'n Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, ac felly bydd ganddynt gyfle i drafod yr adroddiad ac mae'r Undebau Llafur wedi siarad ar yr eitem hon yn y Pwyllgor Craffu perthnasol. Ychwanegwyd fod y Sector Gwirfoddol yn ymgyngoreion ar yr Adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu ac adroddiad ychwanegol, a gaiff ei ystyried yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Ar ôl codi dwylo, cytunwyd yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion fod yr egwyddorion a'r dull, fel yr amlinellwyd yn y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 drafft yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

## 8. TREFNIADAU CYDWEITHREDU ÔL-16 OED

Mae'r adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ar 18 Chwefror 2020 er gwybodaeth yn cynnwys diweddariad i'r Cabinet ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma o ran yr agweddau ôl-16 oed ar yr Adolygiad Rhyw Sengl a Lleoedd Dros Ben sy'n cael ei gynnal yn y Fwrdeistref Sirol; ac sy'n gofyn am gymeradwyaeth i gaffael a gweithredu'r pecynnau TG gofynnol a fydd yn helpu ac yn cefnogi myfyrwyr wrth iddynt symud ymlaen i Addysg Ôl-16 oed a dyrannu cyllid ychwanegol i ariannu'r adolygiad.

Nodwyd fod y Cabinet wedi ffurfio Bwrdd Adolygu i oruchwylio'r adolygiad o'r Ddarpariaeth Ôl-16 oed, Addysg Rhyw Sengl a Lleoedd Dros Ben ledled Caerffili, a bod yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran yr adolygiad gyda phwyslais penodol ar yr elfen Ôl-16 oed.

Er mai gwaith y Bwrdd yw datblygu datrysiadau cynaliadwy tymor hir i heriau Ôl-16 oed, Rhyw Sengl Lleoedd Gwag yng Nghaerffili, mae gwelwyd cyfle i wella'r ddarpariaeth addysg ôl-16 gyfredol yn y Fwrdeistref yn y tymor byr drwy fireinio a gwella natur y cydweithredu sy'n digwydd eisoes rhwng ysgolion uwchradd Cwm Rhymni Uchaf a Basn Caerffili.

Hysbyswyd y Cabinet fod partneriaethau ysgolion Uwchradd yn weithredol yn ardaloedd Gogledd Caerffili (Consortiwm Cwm Rhymni Uchaf– Heolddu, Idris Davies 3-18, Ysgol Merched Lewis ac Ysgol Lewis Pengam) a Basn Caerffili (Bedwas, Cenydd Sant a Martin Sant) ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Bwrdd wedi gweld y posibilrwydd i gryfhau'r partneriaethau hyn drwy gytundeb partneriaeth ffurfiol a sefydlu bwrdd rheoli a allai sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae gan y trefniant hefyd y potensial i gynnig mynediad at gwricwlwm ehangach i fyfyrwyr ac i wella'r costau a'r deilliannau cyffredinol yn y cam Ôl-16 oed.

Mae cymorth ar gael i'r ddwy bartneriaeth i helpu i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol ac mae disgwyl i'r trefniant newydd gael ei gyflwyno ar ddechrau blwyddyn academaidd 2020-21. Yn y cyfamser bydd y Bwrdd Adolygu yn bwrw ymlaen â thrafodaethau ar faterion mwy tymor hir Ôl-16 oed, Lleoedd Dros Ben ac Addysg Rhyw Sengl. Bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Adolygu ar 31 Ionawr 2020 yn canolbwyntio ar adolygiad o ystâd yr ysgolion uwchradd ym Masn Caerffili a Gogledd Caerffili a lle'r ddarpariaeth ôl-16 oed o fewn hynny.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chroesawyd Mr J. Fabes, (Swyddog Arweiniol ar gyfer Addysg ôl-16 oed), Mr M. Jarvis (Pennaeth – Ysgol Gyfun Martin Sant) a Mr C. Parry (Pennaeth– Ysgol Lewis Pengam).

Cafodd y Cabinet gyflwyniad gan Mr Fabes ar y Trefniadau Cydweithredu Ôl-16 oed a'r Adolygiad o addysg ôl-16 oed, addysg rhyw sengl a lleoedd dros ben, gan nodi'r gwaith a wnaed â Phenaethiaid, arweinyddion Cwricwlwm Dosbarthiadau 6 i ddatblygu ymhellach y cydweithredu effeithiol a mwy ffurfiol rhwng dosbarthiadau chwech drwy ddefnyddio dulliau newydd ac integreiddio mwy clos. Nododd y Cabinet fod dwy bartneriaeth Ôl-16 oed eisoes, sef Partneriaeth Basn Caerffili a Phartneriaeth Cwm Rhymni Uchaf (URVP).

Nododd y Cabinet fod prif fuddiannau'r cydweithredu'n cynnwys datblygu cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol i ddysgwyr yn y ddwy bartneriaeth gyda deilliannau o ansawdd uwch i ddysgwyr a gwell gwerth am arian a model cyflawni mwy cynaliadwy.  Nodwyd fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddatblygu ar gyfer pob partneriaeth, a fydd yn ffurfioli'r cytundebau gyda nodau, trefniadau llywodraethu, rheolaeth a darpariaeth cyrsiau.

Hysbyswyd y Cabinet o ddatblygiad gwefan newydd a phrosbectws ar-lein ar y cyd, caffael system a fydd yn darparu cymorth, arweiniad a gwybodaeth ar lwybrau cynnydd.

Cafodd y Cabinet gyfle i wylio fideo byr, a oedd yn dangos noson agored ddiweddar a gynhaliwyd yn Nhŷ Penallta, a oedd yn gyfle i ddysgwyr i edrych ar nifer o opsiynau addysgol, fel pynciau chweched dosbarth, colegau a Gyrfa Cymru.

Eglurodd Mr C. Parry (Pennaeth – Ysgol Lewis Pengam) fod y Cydweithrediad yn broses bwysig i wella ysgolion ac er bod y partneriaethau wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd, mae'r ffurfioli a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael gwared ar unrhyw rwystrau, a'u bod yn helpu i adeiladu ar brentisiaethau ac yn cynnig mwy o lwybrau a llwybrau mwy eglur i ddysgwyr.

Eglurodd Mr M. Jarvis (Pennaeth – Ysgol Gyfun Martin Sant) fod y broses yn gyfle i fyfyrio ar yr arferion sydd ar waith yn awr ac i graffu'n effeithiol, gyda chyfle i helpu ei gilydd ac i rannu arferion gorau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion, y Swyddog Arweiniol a'r Penaethiaid am yr adroddiad, am y cyflwyniad a'r fideo.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd fod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Drwy godi dwylo cytunwyd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion:

i) Y dylid nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;

ii) Y defnydd o £48,000 o gronfa tanwario wrth gefn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol i gael ei gymeradwyo i brynu a gweithredu'r systemau TG gofynnol i gefnogi'r trefniadau newydd. Byddai hyn yn caffael y system am 2 flynedd i bob un o'r 12 Ysgol Uwchradd;

iii) Y defnydd o £10,000 o gronfa tanwario wrth gefn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol i gael ei gymeradwyo i ymestyn y Swyddog LA Arweiniol tan 31 Mawrth 2020.

**9. STRATEGAETH PRYDAU YSGOL AM DDIM (FSM)**

Mae'r adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Caffael Addysg ar 24 Medi 2019 yn cynnwys amlinelliad o'r Strategaeth Addysg sy'n ymdrechu i wella cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynhoad o'r strategaeth ddiwygiedig i wella cyrhaeddiad y

grŵp hwn o ddisgyblion. Roedd y Strategaeth yn cydnabod yr angen i gyflymu gwelliannau, gan ystyried data lleol a chenedlaethol. Roedd y ddogfen hefyd yn edrych ar y meysydd canlynol:

- Defnydd effeithiol o gyllid grant;
- Rôl ysgolion i wella cyrhaeddiad;
- Rôl yr Awdurdod Lleol i wella cyrhaeddiad;
- Rôl rhieni, gofalwyr;
- Rôl partneriaid.

Roedd y Strategaeth hefyd yn cydnabod bod rhai disgyblion, sy'n cael prydau ysgol am ddim, yn cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig ym mhob cam o'u haddysg o Flynyddoedd Cynnar i ddiwedd Cyfnod Allweddol 5. Fodd bynnag, roedd y ddogfen yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl, beth bynnag fo'u cyrhaeddiad blaenorol, yn gwneud cynnydd da drwy gydol eu haddysg ysgol. Yn ogystal â mireinio'r broses atebolrwydd sydd mewn grym i fonitro, olrhain a gwerthuso cynnydd y grŵp hwn o ddysgwyr, mae'r ddogfen yn sôn am sefydlu 'Bwrdd Dyheadau Disgyblion' gyda'r nod o bennu a rhannu'r arferion gorau un sydd i'w cael yn Ysgolion Caerffili.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad,  a dilynwyd hynny gan drafodaeth.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd fod newyddion y BBC wedi cynnwys adroddiad ar waith yn y maes hwn ac yn benodol gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi mai dogfen weithio yw hon, a fydd yn gweithredu fel arweiniad i ddarpariaeth a gwaith yn y maes hwn. Wrth ystyried data diweddar, gofynnwyd i'r Cabinet nodi fod dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd sylweddol yng Nghaerffili, sy'n well na chyfartaledd Cymru ac maent yn perfformio'n well na'r lefel Genedlaethol mewn Rhifedd, o ganlyniad i gau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt.

Gofynnodd Aelod, wrth drafod gwaith a wnaed i ddwyn y Strategaeth ynghyd, am ragor o wybodaeth ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gael gwared ar stigma Prydau Ysgol am Ddim ac i gynyddu'r niferoedd cymwys sy'n manteisio. Eglurodd Swyddogion fod nifer o bethau wedi'u gwneud i godi'r proffil mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd, sy'n cynnwys gwella'r berthynas â rhieni, meithrin elfen o ymddiried, a datblygu system ddigidol ag Ysgolion Uwchradd, sy'n lleihau'r stigma. Hefyd, nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud â'r adrannau Rhent a Budd-daliadau, i ystyried dosbarthu'r Grant drwy'r adran hon, i gael gwared ar y cysylltiad ag ysgolion, ac y byddai hynny hefyd yn cael gwared ar y stigma.

Roedd Aelodau'n awyddus i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar Brydau Ysgol am Ddim, ymhlith rhai sy'n gymwys, a fyddai'n sicrhau bod dysgwyr yn cael help digonol os oedd angen, yn ogystal â chynnydd mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd, fod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddogion yn cael eu cymeradwyo. Cafwyd cytundeb unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddogion fod y Strategaeth Prydau Ysgol yn cael ei chymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.42am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 11 Mawrth 2020.

_______________________

CADEIRYDD